

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

23 Ebrill 2019

Annwyl Sophie,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 27 Mawrth ar gyfer ein gwaith craffu blynyddol ar eich gwaith. Yn dilyn y cyfarfod, cytunodd yr Aelodau y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas ag agweddau ar eich rôl.

Dangosyddion a Cherrig Milltir Cenedlaethol

Mewn perthynas â'r cerrig milltir cenedlaethol i gynorthwyo'r gwaith o fesur y cynnydd a wneir tuag at gyflawni'r nodau llesiant sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

- Byddem yn ddiolchgar am gael eich barn ynghylch a yw dull Llywodraeth Cymru o ddatblygu cerrig milltir, sef drwy gymhwyso nifer fach o'r 46 o ddangosyddion i'r cerrig milltir hynny yn hytrach na phob un ohonynt, yn gydnaws â'i dyletswyddau o dan y Ddeddf;
- Yn eich barn chi, a oes angen gwneud diwygio'r 46 o ddangosyddion cenedlaethol presennol. Os felly, pa ddiwygiadau y dylid eu gwneud?

Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae eich adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf i fod i gael ei gyhoeddi erbyn mis Mai 2020, felly a wnewch chi amlinellu:

- A ydych wedi dechrau gweithio ar eich adroddiad ac, os felly, sut mae'r gwaith yn mynd rhagddo?
- Ym mha ffordd y byddwch chi'n cynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu eich adroddiad?

Cyllideb ac Atal



Rydym yn ymwybodol ichi gyhoeddi cyngor i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys 10 argymhelliad lle y credwch fod angen i'w chyllideb gymryd camau mwy uchelgeisiol a thrawsnewidiol o eleni ymlaen.

- A yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn ffurfiol i'ch cyngor ar ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mhroses y gyllideb?

Datgarboneiddio

Cyhoeddwyd y cyntaf o gynlluniau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru ar 21 Mawrth, a allech chi amlinellu:

- Yn eich barn chi, a yw'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r nodau llesiant, y pum ffordd o weithio, ac amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, ac a yw'r cynllun yn dangos hynny'n ddigonol?
- Pa newidiadau fydddech chi'n disgwyl eu gweld yn y ffordd y caiff y cynllun nesaf ei baratoi, ac o ran y polisiau a'r cynigion fydd ynddo?

Anomaleddau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn y cyfarfod, cyfeiriasoch at anomaleddau yn y Ddeddf, sef er bod gennych ddyletswyddau i fonitro ac asesu cynnydd cyrff cyhoeddus tuag at gyflawni eu hamcanion llesiant, nid oes gennych rôl ymgynghorol ar gyfer pennu'r amcanion hynny. Soniasoch hefyd am y ffaith bod gennych ddyletswyddau i gynghori Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch gosod a monitro eu cynlluniau llesiant, ond nid oes gennych ddyletswyddau ynghylch monitro ac asesu'r cynnydd a wneir. Byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech roi rhagor o fanylion ynghylch ble, yn eich barn chi, y mae bod anomaleddau yn y ddeddfwriaeth.

O ran sefydliadau a gwmpesir gan y Ddeddf, beth yw eich barn ynghylch ychwanegu Trafnidiaeth i Gymru at y rhestr o gyrff cyhoeddus yn y Ddeddf, o ystyried ei rôl o ran cyflawni polisi Llywodraeth Cymru?

Newid yn yr hinsawdd

Gwnaethom hefyd drafod â chi'r cyfleoedd sydd ar gael i gyrff anllywodraethol i ymgysylltu â'ch gwaith ers i Gomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd gael ei ddiddymu. Byddem yn ddiolchgar pe gallech fanylu ar sut, yn eich penderfyniadau, yr ydych yn pwysu a mesur barn y cyrff anllywodraethol hynny sy'n gysylltiedig â maes newid hinsawdd. Hefyd, byddai'n dda cael eglurder ynghylch pa rai o swyddogaethau'r Comisiwn gynt i gynghori Llywodraeth Cymru a gymerwyd gan eich swyddfa a pha rai sydd wedi diflannu.

Sesiynau craffu yn y dyfodol

Yn olaf, deallaf eich bod wedi awgrymu symud ein sesiynau craffu blynyddol i'r hydref gan y byddai hynny'n cyd-fynd yn well â'ch cylch adrodd. Cytunodd yr



Aelodau fod gwneud hynny'n beth synhwyrol. Felly, byddwn yn eich gwahodd i un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn hydref 2019 i drafod eich adroddiad blynyddol ar gyfer 2018-19.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

John Griffiths AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English

